Dull Cyfrifo Ôl-troed Carbon

CYFARWYDDIADAU: Defnyddia'r dull cyfrifo yma i ganfod faint o egni rwyt ti'n ei ddefnyddio gartref ac i gyfrifo dy ôl-troed carbon y flwyddyn. Darllena'r cwestiynau isod a dewis yr ateb sydd fwyaf addas i ti. Rhaid i ti adio dy sgoriau i gael dy gyfanswm.

Cwestiynau

PA FATH O FWYD WYT TI'N BWYTA FWYAF?
a) Bwyd cartref (2)
b) Bwyd tecawê, prydau parod neu fwyd mewn bwyty (4)

SUT BYDDET TI'N DISGRIFIO ORAU YR HYN RWYT TI'N EI FWYTA?
a) Llysiau a ffrwythau yn bennaf (2)
b) Rydw i'n bwyta cig ym mhob pryd bron iawn (3)

PAN FYDDI DI'N GADAEL YSTAFELL WYT TI...
a) Yn diffodd y goleuadau? (2)
b) Yn eu gadael ymlaen ar gyfer wedyn? (3)

SUT WYT TI'N GADAEL Y TELEDU PAN NAD WYT TI'N EI WYLIO?
a) Rydw i'n ei adael ymlaen (3)
b) Rydw i'n ei ddiffodd (1)
c) Rydw i'n ei adael ar y golau coch (standby) (2)

WYT TI'N DIFFODD DY SYSTEM GEMAU FIDEO PAN NAD WYT TI'N EI CHWARAE?
a) Ydw (1)
b) Nac ydw (2)
c) Does gen i ddim un (0)

SUT BYDD DY DDILLAD YN CAEL EU SYCHU AR ÔL IDDYN NHW GAEL EU GOLCHI?
a) Maen nhw'n cael eu hongian i fyny (0)
b) Mewn peiriant sychu dillad (3)
c) Y ddwy ffordd uchod (2)

PAN FYDDI DI WEDI GORFFEN DEFNYDDIO OFFER GWEFRU A THECLYNNAU TRYDANOL ERAILL WYT TI...
a) Yn eu gadael wedi'u plygio i mewn? (1)
b) Yn eu dadblygio neu'n eu diffodd yn y wal? (0)

PAN FYDDI DI'N BRWSIO DY DANNEDD FYDDI DI...
a) Yn diffodd y tap? (1)
b) Yn gadael y tap i redeg? (2)

SUT WYT TI FEL ARFER YN MYND I'R YSGOL?
a) Ar fy meic (0)
b) Mae rhywun yn fy ngyrru yno (4)
c) Dal y bws (2)
d) Rhannu lifft gyda ffrind (rhannu ceir) (3)

WYT TI WEDI HEDFAN MEWN AWYREN ELENI?
a) Do, i rywle yn Ewrop (2)
b) Do, i rywle y tu allan i Ewrop (4)
c) Naddo (0)

PA RAI O'R CANLYNOL WYT TI'N EU HAILGYLCHU? (DEWIS BOB UN SY'N BERTHNASOL. YNA TYNNA'R RHIFAU O DY GYFANSWM ISOD)
a) Cylchgronau (-1)
b) Papurau newydd (-2)
c) Gwydr (-1)
d) Plastig (-1)
e) Caniau alwminiwm a dur (-2)

Cyfanswm =

Lle gwaith

Atebion

1-7 – Ôl-troed carbon isel - rwyt i'n wyrdd iawn!
8-14 – Ddim yn ddrwg, mae gen ti rai arferion da o ran defnyddio egni
15-20 – Rwyt ti'n defnyddio eithaf tipyn o egni, fe allet wella
20+ – O na! Mae dy ôl-troed yn eithaf mawr!

MAE'R PERSON CYFFREDIN YN Y DU YN DEFNYDDIO 6.5 TUNNELL O CO2 Y FLWYDDYN. FAINT O EGNI WYT TI'N EI DDEFNYDDIO O'I GYMHARU Â PHOBL ERAILL, YN DY FARN DI?